Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) AHO (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR AHO) ar eich cyfer chi os ydych chi'n raddedig o bwnc perthnasol sy'n ceisio ennill cymhwyster addysgu a gydnabyddir yn genedlaethol i weithio mewn addysg bellach a'r sector ôl-orfodol ehangach.

Ar y cwrs, byddwch yn datblygu eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymarfer llwyddiannus mewn Addysg Ôl-orfodol a'ch hyder fel ymarferydd proffesiynol.

Mae hwn wedi'i leoli yn yr Academi Chweched Dosbarth (SFA).

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Prifysgol De Cymru.

Gofynion Mynediad

Cymhwyster gradd sy'n berthnasol i'r arbenigedd pwnc a TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Bydd angen i fyfyrwyr ymgymryd ag ymarfer addysgu o leiaf 70 awr bob blwyddyn a rhaid trefnu hyn cyn cofrestru ar y cwrs.

Disgwylir i'r myfyriwr gwblhau gwiriad sgiliau ar-lein yn y cyfweliad.

Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad DBS gwell, a godir ar gost ychwanegol i'r myfyriwr.

Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i raglen ôl-orfodol gysylltiedig â busnes, er enghraifft: MA mewn Addysg. Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa ym meysydd addysg bellach ac addysg i oedolion, er enghraifft: athro, darlithydd, cynorthwyydd addysgu ôl-orfodol neu hyfforddwr astudio.

Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a gweithdai ymarferol. Mae gofyn i chi gyflawni

lleoliad ymarfer addysgu sylweddol yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn astudio. Bydd gofyn i chi gyflawni aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich sesiynau addysgu yn cael eu harsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd. Mae modiwlau'n cynnwys: Paratoi ar gyfer dysgu, Dysgu a chymhwyso Addysgeg, Arfer Proffesiynol 1, Arfer Proffesiynol 2, Rôl TGCh mewn Addysg Bellach, Cymwysiadau Dysgu Cyfunol, Gwella Dysgu, Addysgu ac Asesu.

Asesiad

Bydd gofyn i chi gyflawni aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich sesiynau addysgu yn cael eu harsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

Costau Ychwanegol

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref. Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad manwl DBS ac bydd rhaid i fyfyrwyr dalu am y gwiriad.

DULL ASTUDIO
PT

LLEOLIAD
Coleg Afan - 01639 648200

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

HYD Y CWRS
2Y